



<b>CYFARFOD</b>	<b>Cyd-Bwyllgor GwE</b>
<b>DYDDIAD</b>	24 Chwefror 2021
<b>TEITL</b>	<b>Cyllideb GwE 2020/21 – Adolygiad 3ydd Chwarter</b>
<b>PWRPAS</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Diweddarau aelodau'r Cyd-Bwyllgor am yr adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2020/21.</li><li>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.</li></ul>
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr adroddiad.
<b>AWDUR</b>	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

## 1. CASGLIAD

- 1.1 Mae'r adolygiad 3ydd chwarter yn amcangyfrif tanwariant net o (£42,505), yn bennaf yn sgil arbediad ar y gyllideb costau teithio craidd.
- 1.2 Er hynny mae effaith Covid-19 i'w weld yn effeithio ar amryw benawdau unigol, ac mae'r rhan ddilynol o'r adroddiad yma'n egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau a ragwelir.

## 2. AMRYWIADAU ARIANNOL

### 2.1 Gweithwyr:

**Chwarter 3: gorwariant £18,455** *Chwarter 2: gorwariant £31,302*

Fel adroddwyd yn adolygiad chwarter 2, mae gorwariant yn bennaf oherwydd cost ddiswyddo 2 aelod o staff roedd ar gontractau dros-dro ond gyda gwasanaeth o'u cyflogaeth blaenorol.

Bu lleihad yn y gorwariant ers chwarter 2, yn sgil secondiad un aelod o staff.

### 2.2 Rhent:

**Chwarter 3: gorwariant £58,080** *Chwarter 2: gorwariant £58,080*

Fel adroddwyd yn adolygiad chwarter 2, mae diffyg incwm disgwylledig ar y pennawd yma cyfwerth â gorwariant yn 2020/21. Mae cyllideb incwm rhent am ddefnydd adeiladau GwE yn ddibynnol ar incwm gan ysgolion, awdurdodau a defnydd mewnol o gynlluniau sy'n cael ei ariannu drwy grantiau. Gan nad yw'r incwm yn allanol, ni ellir hawlio grant digolledu o gronfa caledi Llywodraeth Cymru.

### 2.3 Cludiant:

**Chwarter 3: tanwariant (£120,145)** *Chwarter 2: tanwariant (£94,928)*

Adroddwyd yn Chwarter 2 fod disgwyl tanwariant sylweddol, ond adeg hynny roedd ymweliadau addysgol yn ailgychwyn, a disgwyl byddai gwariant eleni yn cynyddu o ganlyniad. Wrth gwrs, yn y cyfnod clo diweddaraf, ni fu unrhyw deithio ac mae'n aneglur pryd fydd ymweliadau ysgol yn ail-gychwyn.

### 2.4 Cyflenwadau a Gwasanaethau:

**Chwarter 3: gorwariant £723** *Chwarter 2: tanwariant (£25,956)*

Yn chwarter 2 fe adroddwyd ar sefyllfa o danwariant. Bellach mae'r sefyllfa yn fwy eglur, a fe ddisgwylir i'r sefyllfa terfynol ar y pennawd hwn fod yn lled-niwtral.

## 2.5 **Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol (GGYCR)**

### **Chwarter 3: niwtral** *Chwarter 2: niwtral*

Fel adroddwyd yn Chwarter 2, bu toriad cyffredinol o 3% (£957,939) i'r GGYCR, a thoriad (£1,263,019) ar gynlluniau penodol yn sgil ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng Covid-19 (gyda thoriad GwE yn £328,361 a thoriad yr awdurdodau / ysgolion yn £1,892,597). Er hynny, gan fod rhai cynlluniau wedi'u gohirio, a gyda chynllunio ariannol cadarn, disgwylir ganlyniad ariannol llêd-niwtral yn 2020/21.

#### **Dadansoddiad o'r grant gyflawn isod:**

Datganoledig*	£27,468,198
Heb ei ddatganoli	£ 7,828,872
Cyfanswm	<b>£35,297,070</b>
Grant	£32,810,790
Arian Cyfatebol	£ 2,486,280
Cyfanswm	<b>£35,297,070</b>

\* Nid yw cyfrifon y GwE yn cynnwys grantiau wedi eu dosbarthu'n uniongyrchol i'r ysgolion.

## **3. CRONFA TANWARIANT**

- 3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2020/21 oedd £480,204.
- 3.2 Amcangyfrifir bydd cyfanswm y gronfa yn £522,709 ar ddiwedd 2020/21, wedi ystyried y tanwariant a ragwelir uchod.
- 3.3 Gall fod her ariannol yn 2021/22 oherwydd ansicrwydd ynglŷn â grantiau penodol, felly awgrymir neilltuo'r gronfa tanwariant am y tro, cyn ystyried pwysau a chost dal i fyny yn 2021/22.

### **ATODIADAU**

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2020/21 – Adolygiad 3ydd Chwarter.

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

### **Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

### **Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cyd-awdur yr adroddiad.